Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl

## Camau gweithredu tymor byr – beth fyddwn ni’n ei wneud erbyn 2027

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Hawliau Pobl Anabl: Ein camau gweithredu tymor byr 2025-2027**



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 24.**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gwefan:**

llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-2025-i-2035

**E-bost:**

TimCynhwysiantPoblAnabl@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Camau gweithredu tymor byr .......... 4**

Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth .......... 4

Swyddi, arian, ac addysg .......... 10

Byw'n annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol .......... 13

Cyfiawnder .......... 19

**Geiriau anodd .......... 24**

## Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth

### Teithio



- Fe fyddwn ni’n casglu gwybodaeth am leoedd parcio ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas. Yna eu rhoi nhw ar wefannau trafnidiaeth.



- Fe fyddwn ni’n gweithio gyda phobl anabl ar wasanaethau trafnidiaeth **hygyrch**.




Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod sefydliadau trafnidiaeth yn siarad â phlant a phobl ifanc anabl a'u rhieni a'u gofalwyr am wasanaethau trafnidiaeth.



- Fe fyddwn ni'n hyfforddi staff trafnidiaeth ar sut i gefnogi pobl anabl.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau trafnidiaeth i wneud yn siŵr bod technoleg ar gael i gefnogi pobl anabl.




- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod cynlluniau trafnidiaeth yn cynnwys anghenion pobl anabl, yn enwedig i'r rhai sy'n byw y tu allan i ddinasoedd.

## Tai



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chynghorau a gwasanaethau tai i ddarparu tai mwy **hygyrch** i bobl anabl, eu gofalwyr, a'u plant pan fyddan nhw'n gadael lle oherwydd nad ydy e'n ddiogel.



- Fe fyddwn ni'n edrych i weld pa mor dda mae ein canllawiau yn gweithio ar gyfer creu cartrefi o ansawdd da. Maen nhw'n cael eu galw yn **Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021**.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chynghorau lleol i wella addasiadau tai a'r cyflenwad o offer. Er enghraifft, lledu drysau ar gyfer cadeiriau olwyn, neu roi lifftiau grisiau i bobl sy'n cael trafferth cerdded i fyny'r grisiau.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau tai i helpu i wella  gwybodaeth am dai **hygyrch**.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr pobl anabl i ddylunio a rhoi hyfforddiant i sefydliadau tai.



- Fe fyddwn ni'n siarad â phobl anabl o wahanol grwpiau i ddeall y problemau tai maen nhw'n eu hwynebu. Er enghraifft, grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

# Model Cymdeithasol o Anabledd



Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am, a gweld anabledd.



Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu nam neu wahaniaeth sy'n stopio nhw.



Mae nam yn wahaniaeth mewn sut mae corff neu feddwl rhywun yn gweithio. Mae'n gallu bod yn y tymor byr, yn y tymor hir neu hyd yn oed yn newid o ddydd i ddydd. Efallai oherwydd eu bod yn sâl, wedi'u hanafu, neu fod ganddyn nhw gyflwr iechyd.



Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.



- Fe fyddwn ni'n hyrwyddo'r Cynllun Hyderus o ran Anableddau i fusnesau a sefydliadau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau ganddyn nhw. Mae'r cynllun yma yn helpu pobl anabl i gael swyddi ac aros ynddyn nhw.



- Fe fyddwn ni'n darparu hyfforddiant i holl staff y gwasanaeth cyhoeddus ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.




- Fe fyddwn ni'n edrych ar bolisïau staff, i wneud yn siŵr eu bod yn cefnogi pobl anabl.




- Fe fyddwn ni'n ysgrifennu canllaw ar gyfer gwneud rheolau a chynlluniau i helpu i amddiffyn ein planed. Fe fydd y canllaw yn helpu pobl i feddwl am sut mae rheolau a chynlluniau yn gallu effeithio ar bobl anabl.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r **Bwrdd Cynghori Allanol** i edrych ar sut i wella'r cynllun. Fe fyddwn ni'n edrych ar unrhyw gamau newydd ar gyfer pobl anabl.

# Swyddi, arian, ac addysg

## Swyddi ac arian



- Fe fydd ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gyflogwyr. Fe fyddan nhw yn helpu cyflogwyr i ddeall gweithio a llogi teg.



- Fe fyddwn ni'n codi ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth pobl anabl. A gwella dealltwriaeth o fanteision cyflogi pobl anabl.



- Fe fyddwn ni'n sefydlu Fforwm Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd i Gymru. Fe fydd y fforwm yn helpu cyflogwyr i rannu syniadau da a chael mwy o fusnesau i ymuno â'r **Cynllun Hyderus o ran Anabledd**.



- Fe fyddwn ni'n edrych ar ein **cynllun Prentisiaethau Cynhwysol**. Fe fyddwn ni'n ei ddiweddaru os oes angen. Mae'r cynllun yma yn helpu pobl anabl i gymryd rhan mewn prentisiaethau. Mae prentisiaeth yn meddwl gweithio a dysgu ar yr un pryd.

## Plant a Phobl Ifanc



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Medr i edrych ar wella'r gwahanol ffyrdd mae pobl yn gallu mynd i mewn i waith â thâl. Mae Medr yn grŵp sy'n helpu colegau a phrifysgolion yng Nghymru. Maen nhw'n rhoi arian ac yn gwneud rheolau fel bod dysgu ac ymchwil yn deg ac yn dda.



- Fe fydd Medr yn gweithio i wella sut mae cyllid yn cael ei roi. Mae hyn er mwyn helpu i wella tegwch a chyfle cyfartal mewn addysg bellach.




- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chynghorau lleol i ysgrifennu cynllun ar gyfer staff mewn addysg. Fe fyddwn ni'n edrych I weld pa staff sydd eu hangen ac yn cynllunio sut rydyn ni'n cael y staff rydyn ni eu hangen. Gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc anabl.




- Fe fyddwn ni'n diweddaru canllawiau i ysgolion ar bethau fel anghenion gofal iechyd, a rheoli ymddygiad. Mae hyn er mwyn helpu ysgolion i feddwl am anghenion plant a phobl ifanc anabl.



- Byddwn yn gweithio gyda **Dysgu** i greu hyfforddiant a fydd yn helpu pobl i ddeall sut i gefnogi plant a phobl ifanc anabl. Mae **Dysgu** yn grŵp sy'n helpu athrawon ac arweinwyr ysgolion i ddysgu sgiliau newydd a gwella sut mae ysgolion yn gweithio.



- Fe fyddwn ni'n diweddaru ein canllaw am wrth-fwlio a diogelu. Mae hyn er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc anabl. Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau i helpu i wella prisiau teg i blant ac oedolion anabl.

# Byw'n annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol

## Lles



- Fe fyddwn ni'n gofyn am wybodaeth am y **Model Cymdeithasol o Anabledd** pan fydd sefydliadau yn gwneud cais am gyllid.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau celfyddydol, chwaraeon a hamdden i wella eu **hygyrchedd**.



- Fe fyddwn ni'n creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl fod yn rhan o weithgareddau diwylliannol. Fel mynd i gyngherddau ac ymweld ag amgueddfeydd.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod diwylliant yn cynnwys pawb ac yn **hygyrch**.



- Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n cefnogi gwasanaethau gofal plant a chwarae i fod yn fwy **hygyrch**.



- Fe fyddwn ni'n cefnogi gweithwyr gofal plant a chwarae i gael hyfforddiant fel eu bod nhw'n gallu cefnogi plant anabl yn well.



- Fe fyddwn ni'n sefydlu **Bwrdd Cynghori Allanol** i ddarparu cyngor a chefnogaeth ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau pobl anabl i edrych ar gyllid newydd ar gyfer gofal cymdeithasol.



- Fe fyddwn ni'n cynnwys plant ac oedolion anabl i wella hawliau pobl anabl.




- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl anabl ar astudiaeth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol. Ac edrych ar beth sydd wedi cael ei ddarganfod trwy'r astudiaeth.



- Fe fyddwn ni'n cefnogi cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu mwy o hyfforddiant. Mae hyn ar gyfer **hygyrchedd**, anghenion a hawliau unigol.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu**. Fe fyddan nhw'n gosod nodau ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth.




- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau sy'n gwneud technoleg gynorthwyol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, meddalwedd testun-i-leferydd.



- Fe fyddwn ni'n helpu i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr un ffordd. Er enghraifft, defnyddio'r un termau a geiriau.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl anabl am gyngor am argyfyngau cyhoeddus. Fel llifogydd, a COVID-19.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda darparwyr i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu byw'n annibynnol gartref, lle bynnag mae'n bosibl.



- Fe fyddwn ni'n edrych ar sut mae plant byddar yn cael eu cefnogi trwy sgrinio gofal iechyd blynyddoedd cynnar.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau sy'n arolygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys y **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn eu canllawiau ar gyfer arolygwyr.




- Fe fyddwn ni'n sefydlu grŵp i edrych ar sut mae newidiadau i wasanaethau iechyd yn effeithio ar bobl anabl.



- Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod cynghorau lleol a byrddau iechyd yn rhoi gwybodaeth i ofalwyr di-dâl am gymorth maen nhw’n gallu ei gael.




- Fe fyddwn ni’n cefnogi gwelliannau i asesiadau anghenion gofalwyr fel bod mwy o ofalwyr pobl anabl yn gallu eu cael. Mae’r asesiadau yma yn edrych ar ba gymorth mae gofalwr ei angen.



- Fe fyddwn ni’n gweithio gyda chynghorau lleol i wneud yn siŵr bod gofalwyr di-dâl yn gallu cael seibiannau o ofalu.




- Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod rôl gofalwyr di-dâl yn cael ei chynnwys wrth gynllunio gofal pan fydd y person maen nhw’n gofalu amdanyn nhw yn gadael yr ysbyty.

# Cyfiawnder

## Mynediad at Gyfiawnder



- Fe fyddwn ni'n rhoi cyllid i ymgyrch **Mae Casineb yn Brifo Cymru**. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod ffocws ar stopio troseddau yn erbyn pobl anabl.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein holl adrannau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth ac adroddiadau, fel eu bod nhw'n gallu gwella pethau a delio ag unrhyw broblemau.



- Fe fyddwn ni'n darparu mynediad cyfartal i wasanaethau cymorth i oroeswyr troseddau sy'n anabl.



- Fe fyddwn ni'n cefnogi pobl anabl i ddeall ac adrodd am **droseddau casineb** neu **cyfeillio**.





**Troseddau casineb** ydy cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd eich bod chi'n anabl, neu oherwydd lliw eich croen.

**Troseddau cyfeillio** ydy pan fydd rhywun yn esgus bod yn ffrind i chi i'ch defnyddio a chael rhywbeth maen nhw ei eisiau gennych chi.



- Fe fyddwn ni'n gofyn i Lywodraeth y DU wella'r wybodaeth sydd gennym ni am bobl anabl mewn carchardai.




- Fe fyddwn ni'n edrych I weld bod staff carchar yn gallu cael hyfforddiant ar y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



- Byddwn yn gwirio bod Llywodraeth y DU yn deall hawliau ac anghenion pobl anabl ar faterion cyfiawnder.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod anghenion cyfathrebu carcharorion yn cael eu hystyried yn gynnar i'w helpu nhw i gymryd rhan mewn addysg.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod anghenion pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y **Strategaeth Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol**. A gweithio gyda phobl anabl i rannu negeseuon diogelwch pwysig.

## Mynediad at Wasanaethau



- Fe fyddwn ni'n rhoi hyfforddiant **Model Cymdeithasol o Anabledd** i'n staff sy'n gweithio yn y cyfryngau a gwasanaethau cyfreithiol.



- Fe fyddwn ni'n rhoi hyfforddiant **Model Cymdeithasol o Anabledd** i Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a'u staff.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau pobl anabl ac yn cynllunio ymgyrch gyhoeddus. Fe fydd yn helpu pobl i ddeall anghenion a hawliau pobl anabl. Fe fydd hefyd yn edrych ar y problemau sydd yn codi pan nad ydy pobl yn gallu defnyddio arian parod.



- Fe fyddwn ni'n gofyn i gyflogwyr gael Hyrwyddwr Pobl Anabl.




- Fe fyddwn ni'n gweithio i helpu pawb i ddefnyddio mwy o Gymraeg ar-lein. Er enghraifft, defnyddio meddalwedd sy'n darllen testun Cymraeg ar dudalen we.



- Fe fyddwn ni'n datblygu grant i gefnogi pobl i ddefnyddio technoleg a gwasanaethau ar-lein.

# Geiriau anodd

## Hygyrch

Mae hyn yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un yn hawdd.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am ac edrych ar anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu nam neu wahaniaeth sy'n stopio nhw.

Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

## Nam

Mae nam yn wahaniaeth mewn sut mae corff neu feddwl rhywun yn gweithio. Mae'n gallu bod yn y tymor byr, yn y tymor hir neu hyd yn oed yn newid o ddydd i ddydd. Efallai oherwydd eu bod yn sâl, wedi'u hanafu, neu fod ganddynt gyflwr iechyd.

## Troseddau cyfeillio

Trosedd cyfeillio ydy pan fydd rhywun yn esgus bod yn ffrind i chi i'ch defnyddio a chael rhywbeth maen nhw ei eisiau gennych chi.

## Troseddau casineb

Troseddau casineb ydy cael eich trin yn wael oherwydd bod pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol. Er enghraifft, oherwydd eich bod chi'n anabl, neu oherwydd lliw eich croen.